# Datganiad Gwasanaeth Rhyngwladol@ BywydCampws

## Gweledigaeth

Nod Rhyngwladol@ BywydCampws yw cefnogi myfyrwyr rhyngwladol i ymgymryd â chyfnod astudiaeth ddiogel a chyfreithlon gyda ni yn y DU. Rydym ni hefyd yn ceisio sicrhau bod eu profiad mor groesawgar, mor ffrwythlon ac mor foddhaus ag sy'n bosibl, a bod pob myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe yn cael cyfleoedd i gymysgu ac i dyfu gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel, sy'n meithrin.

## Cenhadaeth

Prif faes arbenigedd Rhyngwladol@ BywydCampws yw mewnfudo i'r DU, yn arbennig mewn cysylltiad â myfyrwyr a'n cenhadaeth ni yw cynnig cyngor a gwybodaeth arbenigol o'r radd flaenaf i fyfyrwyr rhyngwladol a'u dibynyddion. Byddwn hefyd yn cynnig gwasanaeth cyngor pwrpasol ar gyfer materion nad ydynt yn rhai academaidd a materion sy'n gysylltiedig â lles, ac yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd sy'n gwella profiad myfyrwyr rhyngwladol a hyrwyddo rhyngwladoliaeth ar y campws a'r tu hwnt.

Byddwn yn cefnogi pob myfyriwr rhyngwladol heb ystyried cenedligrwydd, crefydd, rhyw, oedran, dewisiadau rhywiol neu statws iechyd. Bydd ein cyngor yn cael ei gynnig am ddim a heb wahaniaethu.

Byddwn yn gweithredu yn unol â Chod Moeseg UKCISA/AISA ac yn bodloni safonau a rheolau llym Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudiad (OISC).

## Ein Gwerthoedd

Mae BywydCampws yn gweithredu yn unol â chyfres o Werthoedd Craidd pendant ac mae disgwyl i'n staff allu arddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hynny o'r adeg y byddant yn gwneud cais, ac wrth iddynt wneud eu gwaith o ddydd i ddydd.

Dyma Ein Gwerthoedd:

### Rydym yn Broffesiynol

Rydym ni'n falch o ddefnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein huniondeb a'n doethineb er mwyn darparu gwasanaethau ac atebion arloesol, effeithiol, effeithlon, ac o safon ragorol.


### Rydym yn Cydweithio

Rydym ni'n falch o weithio mewn amgylchedd rhagweithiol, cydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithredu a her, er mwyn darparu gwasanaethau sy'n ymdrechu i ragori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.

### Rydym yn Gofalu

Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando, deall ac ymateb yn hyblyg i'n myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod pob cyswllt a gânt â ni yn brofiad positif a phersonol.

## Y Tîm




## Yr hyn yr ydym yn ei gynnig

- Cyngor a gwybodaeth ar fewnfudo (Llwybr Myfyrwyr a chategorïau eraill sy'n berthnasol i fyfyrwyr).
- Cyngor a gwybodaeth ar faterion sy'n ymwneud â myfyrwyr rhyngwladol.
- Cymorth gyda cheisiadau i estyn fisa myfyrwyr.
- Gweithgareddau croesawu a sefydlu.
- Gwybodaeth a chyngor ar reoliadau sy'n ymwneud â chyflogaeth.
- Gwybodaeth a chyngor ar fywyd o ddydd i ddydd yn y DU.
- Gwybodaeth a hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol.
- Rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol.

## Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl

- Cyngor gwybodus, diduedd, cyfrinachol, heb farnu.
- Derbynfa BywydCampws sydd ar agor o ddydd Llun – Dydd Iau rhwng 10.00am - 4.00pm, Dydd Gwener 10.00 -12.00 yn ystod y tymor ac yn ystod cyfnodau o wyliau.
- Staff ac aelodau cyswllt cynorthwyol a chroesawgar sy'n diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy ddatblygiad proffesiynol, presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi perthnasol ac aelodaeth/achrediad gan gyrff proffesiynol perthnasol.
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a ddarperir drwy:

    1. Sesiynau galw heibio sydd ar gael ar Gampws Singleton a Champws y Bae, fel y gwelir

ar ein safle we: https://www.swansea.ac.uk/international-campuslife/
2. Sesiynau sgwrs fyw ar gael yma: https://www.swansea.ac.uk/international-campuslife/
3. Cyfeiriad e-bost **International.CampusLife@Swansea.ac.uk** pwrpasol. Rydym yn ymdrechu i ymateb i bob ymholiad e-bost o fewn pump diwrnod gwaith.
4. Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar Facebook, Twitter ac Instagram i ryngweithio â'n gwasanaeth ac i roi'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth am ddigwyddiadau, ac i gyfeirio at adnoddau BywydCampws ac adnoddau allanol (nid ydym yn darparu cyngor ac arweiniad penodol drwy ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol):
    - Facebook: https://www.facebook.com/CampusLifeSU/
    - Twitter: https://twitter.com/campuslifesu
    - Instagram: https://www.instagram.com/campuslifesu/

- Os bydd aelod o staff yn absennol, bydd neges allan o'r swyddfa (dwyieithog os oes modd) yn dweud pryd y byddant yn dychwelyd i'r swyddfa, a phwy i gysylltu â nhw yn eu habsenoldeb.
- Eich cynghori yn ystod cyfnodau prysur iawn pan mae'n bosibl na allwn ni gwrdd â'r holl safonau gwasanaeth.

### Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Ein bwriad yw meithrin annibyniaeth, hunanymwybyddiaeth a chyfrifoldeb personol. Yn y cyd-destun hwn, rydym ni'n disgwyl i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb gweithredol a gweithredu'n briodol er mwyn rheoli'r materion a'r pryderon y maent yn ceisio ein cymorth yn eu cylch.
- Eich bod yn trin ein staff â pharch yn dilyn rheoliadau a chod ymddygiad y Brifysgol.
- Eich bod yn esbonio manylion eich ymholiad ac yn rhoi cymaint o wybodaeth i ni ag sy'n bosibl.
- Eich bod yn gyfrifol am ddarparu'r holl ddogfennaeth ofynnol mewn modd prydlon er mwyn ein galluogi ni i ymateb i'ch ymholiad.
- Eich bod yn ymateb i unrhyw gais am wybodaeth yn brydlon – boed yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu drwy'r e-bost.
- Eich bod yn ein hysbysu ni o unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau, gan gynnwys newidiadau i'ch cyfeiriad neu fanylion cysylltu e-bost.
- Eich bod yn mynychu apwyntiadau'n brydlon neu'n rhoi gwybod i ni os ydych chi'n mynd i fod yn hwyr.
- Eich bod yn ymrwymo â ni ac yn gweithredu ar y cyngor a ddarperir.

### Ni allwn ni eich helpu chi â'r canlynol

- Ceisiadau am wybodaeth, cyngor ac arweiniad y tu allan i'n horiau gwasanaeth a hysbysebwyd. Mae Rhyngwladol@ BywydCampws yn wasanaeth yn ystod y dydd, ac nid yw'n darparu gwasanaeth uniongyrchol y tu allan i oriau i fyfyrwyr gysylltu ag ef. Dylai pryderon y tu allan i oriau (argyfyngau yn unig) gael eu cyfeirio at Ddiogelwch Prifysgol Abertawe.
- Rheoli digwyddiadau difrifol ac argyfyngau ar unwaith. Cyfrifoldeb y gwasanaethau statudol fel yr Heddlu a'r GIG yw hwn. Nid yw Rhyngwladol@ BywydCampws yn darparu swyddogaeth ymateb ar unwaith i argyfwng, er bod staff fel arfer yn ymwneud ag ymateb i ganlyniadau digwyddiadau o'r fath, sy'n gysylltiedig â lles neu ddisgyblaeth myfyrwyr, gan roi cyngor a chymorth i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.
- Achosion mewnfudo cymhleth sydd y tu allan i gylch gwaith Ymgynghorydd yn ôl Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudiad (OISC). Gallai'r rhain fod yn ymwneud â: fisas nad ydynt yn fisas Llwybr Myfyrwyr; ceisiadau am drwydded waith/fisa; preswyl; ceisio lloches; ceisiadau y tu allan i'r rheolau FLR(O); fisas teithio personol; ceisiadau a gwnaed tramor neu achosion yn ymwneud ag aelod o deulu neu ffrindiau'r myfyriwr.
- Cymorth eiriolaeth bersonol neu arddeliadau. Gan gynnwys, ond nid wedi'i gyfyngu i: eiriolaeth Prifysgol yn ymwneud ag apeliadau neu gwynion; geirdaon personol ar gyfer cyflogaeth neu ddibenion eraill neu geisiadau i wirio dogfennau swyddogol.

### Adborth

**Rydym yn gwerthfawrogi adborth gan fyfyrwyr, cydweithwyr a rhanddeiliaid eraill.** Boed dda neu ddrwg, rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu gwestiynau sydd gennych. Helpwch ni i barhau i wella'n gwasanaeth drwy gynnig eich sylwadau a'ch awgrymiadau drwy e-bost ac ymateb i'n ceisiadau adborth ar ffurf holiaduron rheolaidd a sesiynau grwpiau ffocws.

Gallech chi hefyd lenwi Cerdyn Adborth Rhyngwladol@ BywydCampws sydd ar gael yn Nerbynfa BywydCampws ar Gampws Singleton neu drwy Hyb MyUni ar Gampws y Bae.

Mae'r gwasanaeth yn gwbl anhysbys. Nid ydym yn rhannu'r wybodaeth yr ydych chi'n ei darparu ag unrhyw drydydd parti ac rydym yn ei ddiogelu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Emma Gwynnett-Davies
Rheolwr – Rhyngwladol@ BywydCampws
international.campuslife@swansea.ac.uk

**Cysylltwch â ni**

International @CampusLife / Rhyngwladol @BywydCampws
CampusLife / BywydCampws
Student Services / Gwasanaethau Myfyrwyr
Swansea University / Prifysgol Abertawe
Talbot Building / Adeilad Talbot
Singleton Park / Parc Singleton
Swansea / Abertawe
SA2 8PP
E-bost / Email: International.CampusLife@Swansea.ac.uk

Rhyngwladol @ || International @
Swansea University Prifysgol Abertawe | Bywyd Campws Campus Life